



Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

Safonau'r Gymraeg

Adroddiad Blynyddol 2021-2022

Cynnwys

Cyflwyniad	1
Cefndir	2
Atebolrwydd	2
Cydymffurfio a Hyrwyddo	3
Safonau Cyflwyno Gwasanaeth	8
Safonau Llunio Polisi.....	9
Safonau Gweithredol.....	10
Safonau Hyrwyddo	13
Gofynion Deddfwriaethol Penodol	14
Cwynion	16
Cyfle i Ddweud eich Dweud	19
Mesurau	19

Os oes angen yr wybodaeth hon arnoch mewn print bras neu mewn fformat arall, ffoniwch y Tîm Polisi Corfforaethol ar 01639 763010 neu e-bostiwch polisi@npt.gov.uk

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn amlygu ein gwaith yn rhoi safonau'r Gymraeg ar waith fel y'u cymhwyswyd i'r Cyngor, yn ogystal â nodi meysydd lle mae angen rhagor o waith.

Yn ystod 2021-2022 buon ni'n parhau i deithio ar hyd y ffordd hir a throellog tuag at ryw fath o normalrwydd, gyda newidiadau yn y galw am wasanaethau'r cyngor – ôl-groniad gwaith oherwydd bod gwasanaethau wedi gorfod dod i ben dros dro – symudiad parhaol i fodel hybrid yn lle patrymau gwaith swyddfa traddodiadol, absenoldebau staff sylweddol oherwydd effeithiau Covid ar iechyd corff a meddwl, a hefyd marchnad leol fwyfwy cystadleuol.

Ar hyn o bryd rydym ni'n gweithio trwy effeithiau annisgwyl a gododd nid oherwydd y pandemig yn unig, ond hefyd wrth i systemau ac arferion gwaith newydd gael eu cyflwyno, a disgwylir cael hyd i atebion i hyn i gyd erbyn mis Ebrill 2023.

Cefndir

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn rhoi trosolwg o sut rydym ni fel Cyngor wedi rhoi safonau'r Gymraeg ar waith, ac mae'n darparu gwybodaeth ynghylch meysydd penodol: nifer y staff sy'n siarad Cymraeg a gofynion iaith swyddi gwag, fel sy'n ofynnol o dan Fesur yr Iaith Gymraeg (2011) a Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015.

Mae'r safonau a gymhwyswyd i'r Cyngor o dan adran 44 o Fesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 wedi'u cynnwys yn ein [hysbysiad cydymffurfiaeth](#).

Atebolrwydd

Y Cyngor sy'n gyfrifol am weithredu'r safonau yn y pen draw, a'r Prif Weithredwr sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod trefniadau ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth. Ar ben hynny, rydym ni'n cydnabod bod gan bob aelod o staff rôl i'w chwarae er mwyn gweithredu'r safonau'n llwyddiannus.

Mae ein trefniadau llywodraethu yn gofyn bod yr Adroddiad Blynyddol yn cael ei fonitro gan y Cabinet, a bod Pwyllgor Craffu'r Cabinet yn cyflawni rôl bwysig trwy sicrhau bod y cynnydd yn ein perfformiad yn cael ei gynnal.

Mae'r Grŵp Cydraddoldeb a Chydlyniant Cymunedol yn cefnogi'r Prif Weithredwr a'r Aelodau etholedig, ac mae'n gyfrifol am fod â gorolwg dros weithredu'r safonau. Yn ystod 2021/2022, cadeirydd y grŵp hwn oedd yr Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Corfforaethol a Chydraddoldeb, ac mae'r aelodau'n dod o bob cyfarwyddiaeth, yn ogystal â chynrychiolwyr o sefydliadau cydraddoldeb lleol.

Mae Grŵp Swyddogion yr Iaith Gymraeg (WLOG) yn cefnogi gweinyddiaeth a gweithrediad y safonau, ac mae'n helpu i sicrhau datrysiad cynnar ar gyfer unrhyw faterion a allai godi, ac yn cefnogi staff i gyflwyno gwasanaethau, yn unol â'r dyletswyddau a osodwyd ar y Cyngor, yn ogystal â helpu i hybu'r iaith.

Mae'r holl wybodaeth a deunyddiau cefnogi sy'n ymwneud â gweithredu safonau'r Gymraeg ar gael ar y fewnrwyd ac mae modd i'r staff eu cyrchu. Codir ymwybyddiaeth o ofynion y safonau trwy'r Grŵp Rheoli Corfforaethol, timau rheoli cyfarwyddiaethau, cyfarfodydd tîm, a hefyd trwy fecanweithiau cyhoeddusrwydd mewnol y Cyngor, e.e. y llythyr newyddion ar-lein, 'In the Loop' a chyfathrebu Sway.

Cydymffurfio a Hyrwyddo

Comisiynydd y Gymraeg: cydymffurfio â safonau'r Gymraeg – ym mis Awst 2021 cyflwynwyd tystiolaeth o blaid ein hunanasesiad o gydymffurfiaeth ar draws meysydd gwaith penodol, yn unol â chais Comisiynydd y Gymraeg, tra bod swyddogion y Comisiynydd yn cynnal arolygon pen desg. Ym mis Ionawr 2022 buom ni'n cwrdd â swyddog y Comisiynydd i drafod canlyniad yr ymarferiad monitro cydymffurfio.

Aseswyd 10 maes gweithgaredd: gohebiaeth, galwadau ffôn i'r prif rif ffôn, dogfennau/ffurflenni, gwefan, cyfryngau cymdeithasol, derbynfeydd, llunio polisi, asesu gofynion iaith swyddi newydd a gwag, hyrwyddo'r Gymraeg a chadw cofnodion, yn ogystal â materion atodol a threfniadau ar gyfer hunanreoleiddio.

Er y cafwyd bod y dogfennau/ffurflenni a'r tudalennau gwe a adolygwyd ar gael yn Gymraeg, roedd yn achosi rhwystredigaeth dysgu bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol (aseswyd pob tudalen gwe ac un ffurflen), ac roedd testun oedd yn ofynnol wedi'i hepgor o'r holl ddogfennau/ffurflenni a aseswyd.

Tebyg oedd tynged ein cydymffurfiaeth mewn perthynas â'r cyfryngau cymdeithasol; er bod mwyafrif y postiadau yn Gymraeg (9/10 ar Twitter a 7/10 ar Facebook), roedd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol yn achos bron hanner o'r rhai a aseswyd: ddim ar gael yn Gymraeg, testun yn eisiau mewn postiad Cymraeg, a hashnodau ar goll.

Testun siom oedd bod y meysydd canlynol wedi methu â dangos gwelliant ers asesiad perfformiad y flwyddyn flaenorol:

- gohebiaeth – o'r tri darn o ohebiaeth a dderbyniwyd yn Gymraeg, dim ond dau a gafodd ateb yn Gymraeg, ac ni chafodd y trydydd ymateb o gwbl
- galwadau ffôn – dim ond un o dair galwad ffôn gafodd ymateb yn gyfangwbl yn Gymraeg; nid atebwyd y naill na'r llall o'r galwadau eraill. Wedi'r cyfarfod, argymhellwyd camau pellach i sicrhau cydymffurfiaeth lawn â safonau penodol, ac mae tystiolaeth ynghylch cyflawni'r rhain i gael ei chyflwyno i'r Comisiynydd cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl ar ôl 30 Mehefin 2022. Y camau hyn yw:
 - sicrhau bod pob fersiwn Saesneg o ddogfennau a ffurflenni yn nodi'n glir bod y ddogfen/ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg. (Safonau 49 a 50A)
 - mynd ati i sicrhau bod cyfrifon cyfryngau cymdeithasol yn cydymffurfio'n llawn â gofynion y safon. (Safon 58)
 - cynhyrchu Polisi ar Ddyfarnu Grantiau erbyn 27 Mai 2022. (Safon 94)
 - mynd ati i sicrhau bod y system Adnoddau Dynol/Cyflogres newydd, ac felly holl brosesau recriwtio'r Cyngor, yn cydymffurfio'n llawn â gofynion y safonau. (Safonau 136A, 137, 137A a 139).

Diwrnod Hawliau'r Gymraeg (7 Rhagfyr 2021) – yn dilyn dathliadau ar raddfa fach yn y blynyddoedd diwethaf, roeddem wedi gobeithio dathlu trydydd Diwrnod Hawliau'r Gymraeg yn ehangach. Fodd bynnag, roedd y cyfyngiadau parhaus yn golygu bod yr ymgyrch gyhoeddusrwydd wedi'i chyfyngu i blatfformau cyfryngau cymdeithasol a gwybodaeth i aelodau staff yn ein diweddariad Sway wythnosol, ein hadran newyddion ar y Fewnrwyd a sianel Yammer y staff.

Mae Diwrnod Hawliau'r Gymraeg yn dathlu ein hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg yn ein bywydau bob dydd, gan gynnwys yn y gweithle.

Wyddech chi y gallwch chi...?

- Ymgymryd â hyfforddiant yn Gymraeg
- Ymgeisio am swyddi yn Gymraeg
- Cael mynediad at bolisiau AD yn Gymraeg
- Gwneud cwynion yn Gymraeg
- Cael mynediad at ddeunyddiau cymorth fel meddalwedd i'ch cefnogi pan fyddwch yn ysgrifennu'n Gymraeg
- Cael mynediad at lofnodion e-byst a negeseuon allan o'r swyddfa Cymraeg
- Derbyn deunydd hyrwydd... see more



Diwrnod Hawliau'r Gymraeg

Cynhelir Diwrnod Hawliau'r Gymraeg bob blwyddyn ym mis Rhagfyr ac mae'n nodi'r dyddiad y derbyniwyd [Mesur y Gymraeg](#) gan y Senedd. Mae'r Mesur yn cadarnhau statws swyddogol y Gymraeg, ac yn sefydlu'r egwyddor na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru.

mae'r diwrnod yn gyfle gwych i hyrwyddo'n gwasanaethau Cymraeg, dathlu'n hiaith a'ch hawliau chi i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio gyda ni:

Mae gennych yr hawl i:

- Ysgrifennu llythyrau neu e-byst yn Gymraeg.
- Siarad â ni yn Gymraeg dros y ffôn.
- Derbyn llythyrau ac e-byst yn Gymraeg gennym
- Gweld ein gwefan yn Gymraeg
- Defnyddio'n cyfrifon cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg
- Ymgeisio am swyddi yn Gymraeg
- Gwneud cwynion yn Gymraeg


Am ragor o wybodaeth am eich hawliau a defnyddio'r Gymraeg, ewch i:

- Ein gwe-dudalen [Safonau'r Gymraeg](#)
- Gwe-dudalen [Fy Hawliau Iaith](#) Comisiynydd y Gymraeg

Os ydych am ddysgu Cymraeg, gwella'ch sgiliau iaith, magu'ch plentyn yn ddwyieithog neu gael gwybodaeth am wasanaethau Cymraeg a dwyieithog yng Nghastell-nedd Port Talbot, ewch i'n [gwe-dudalen](#)

Mae rhagor o wybodaeth am ysgolion Cymraeg yng Nghastell-nedd Port Talbot ar gael [yma](#).

Cynhyrchwyd cefndiroedd Cymreig ar gyfer Microsoft Teams, ac anogwyd staff a dysgwyr oedd yn medru'r Gymraeg i ddefnyddio'r rhain yn eu cyfarfodydd Teams. Mae cefndiroedd tymhorol ar gyfer Teams yn cael eu cynhyrchu i'r holl staff gan ein tîm cyfathrebu, ac erbyn diwedd y flwyddyn dylai fod gennym ni gyflenwad llawn o gefndiroedd i'w defnyddio gan yr holl staff



Yn dilyn ymlaen o Ddiwrnod Hawliau'r Gymraeg, rydym wedi creu adran fwy gweladwy ar gyfer [yr iaith Gymraeg](#) ar ein gwefan, gan gyfeirio ymlaen at safonau'r Gymraeg, hyrwyddo'r Gymraeg, a chyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg. Bydd hyn yn parhau i gael ei ddiweddarau a'i wella yn ystod 2022/2023.

Ymgyrch Dewch i Sgwrsio – Yn ystod haf 2021, buom ni'n cynnal ymgyrch i ymgysylltu â phobl o bob cefndir a phob oed, gyda golwg ar brofi ein dealltwriaeth o sut mae'r pandemig wedi effeithio ar

wahanol rannau o'n bwrdeistref sirol, a hefyd i ddeall beth sydd bwysicaf i bobl leol.

Dywedodd yr ymatebion wrthym ni fod pobl yn CNPT yn falch o'u cymunedau Cymreig ac yn dymuno diogelu a chadw ein hiaith, ein traddodiadau a'n diwylliant Cymraeg. Ymhlith yr ymatebion niferus a dderbyniwyd yn ystod Dewch i Sgwrsio, dywedodd pobl wrthyn ni fod eu hamgylchedd lleol, yr iaith Gymraeg, a'n treftadaeth a'n diwylliant yn bwysig iddyn nhw. Roedden nhw am i ni wneud y canlynol:

- Cadw'r gorffennol yn fyw, gan hyrwyddo a dathlu ein treftadaeth er mwyn cryfhau ein hymdeimlad o hunaniaeth a'n hymdeimlad o berthyn;
- Helpu i ddiogelu, cadw a chynnal ein safleoedd hanesyddol a threftadaeth ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol;
- Hyrwyddo'r Gymraeg, ein traddodiadau a'n diwylliant;
- Helpu pob cenedlaeth i gysylltu â'n hamgylchedd naturiol, ein treftadaeth a'n diwylliant;
- Helpu ein grwpiau gwirfoddol a chymunedol i gynnal a datblygu ymhellach eu gwaith pwysig.

O ganlyniad, datblygwyd Amcanion Llesiant y Cyngor ar sail yr ymatebion a dderbyniwyd; gydag un yn arbennig yn cydnabod y pwysigrwydd a roddir i'r iaith Gymraeg, ein treftadaeth a'n diwylliant yng Nghastell-nedd Port Talbot. Mae'r [Cynllun Corfforaethol 2022-2027](#) yn cynnwys rhagor o wybodaeth am yr Amcanion Llesiant, yn ogystal â'r camau gweithredu i'w gwireddu.

Defnyddiwyd yr ymatebion yn ystod yr ymgyrch Dewch i Sgwrsio hefyd i lywio Asesiad Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot. Un dimensiwn i'r Asesiad yw Llesiant Diwylliannol, sy'n cynnwys themâu Diwylliant a Threftadaeth a'r iaith Gymraeg. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cydnabod yr angen am fonitro'r sefyllfa a darparu mwy o gyfleoedd i bobl yn CNPT siarad Cymraeg.

Safonau Cyflwyno Gwasanaeth

Mae darparu gwasanaethau yn gyffredinol wedi parhau'n heriol ers dyfodiad y pandemig ym mis Mawrth 2020, ac mae darparu gwasanaeth Cymraeg wedi bod yn anoddach fyth i rai o'n meysydd gwasanaeth yn ystod y cyfnod hwn. Mae mwyafrif o'n staff wedi parhau i weithio gartref, ac mae nifer cyfyngedig o staff wedi gallu dychwelyd i amgylchedd y swyddfa. Fodd bynnag, mae effeithiau Covid 19 ar lefelau staffio, ac yn y pen draw ar wasanaethau, yn dal i'w teimlo.



Gohebiaeth yn Gymraeg – er mwyn lleihau nifer y ceisiadau i dderbyn gohebiaeth yn Gymraeg trwy gamgymeriad, mae Grŵp Swyddogion y Gymraeg wedi aildylunio'r ffurflen gais ar-lein, sydd bellach ar gael yn Gymraeg yn unig ar ein gwefan. Mae ymarferiad glanhau data i gael ei gwblhau, er mwyn helpu i sicrhau bod yr wybodaeth gywir ar gael i wasanaethau.

Mae 82 o bobl wedi nodi eu bod yn dymuno derbyn gohediaeth gennymyn Gymraeg



Mae'r gronfa ddata wedi cael ei hymgorffori i'r System Rheoli Achosion Cyfreithiol, a gyflwynwyd yn ddiweddar; mae'r system yn mynd trwy broses o wirio risgiau, y mae un ohonynt yn gysylltiedig â Chronfa Ddata'r Gymraeg, ac amlygir rhybuddion ar ffeiliau unigol os bydd angen gohebu yn Gymraeg.

Galwadau ffôn – yn ystod y blynyddoedd diwethaf rydym wedi cael trafferth recriwtio a chadw staff sy'n medru'r Gymraeg yn ein Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid, ac mae hynny'n cael effaith uniongyrchol ar ein gallu i ddelio'n effeithiol ag ymholiadau Cymraeg ar ein prif rif

ffôn. Gwaethygydd hynny gan y materion cysylltiedig â'r pandemig sy'n parhau, er enghraifft gwasanaethau'n gorfod newid eu modelau gweithredu, a chyfnodau estynedig o salwch staff. Mae cynnydd o 14% yn nifer y galwadau Cymraeg (1215 o gymharu â 1043 yn 2020-2021) i'r prif rif ffôn wedi cyfrannu ymhellach at y sefyllfa hon.

Ein gobaith yw ymdrin â'r materion hyn trwy gynyddu capasiti ein Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid a recriwtio rhagor o siaradwyr Cymraeg i swyddi, yn ogystal ag annog staff sydd â rhai sgiliau yn y Gymraeg i wella'u lefel a/neu eu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith.

Cyfarfodydd y Cyngor – er bod cyfarfodydd cyngor dwyieithog i fod i gychwyn yn ystod 2021-2022, penderfynodd Grŵp Cyfeiriadol TGCh yr Aelodau (is-grŵp i Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd) y dylid aros i brynu a gweinyddu'r trwyddedau, rhoi hyfforddiant rhithwir ar Zoom i'r Aelodau, yn ogystal â phrynu gliniaduron ychwanegol (mae hyn i gyd yn ofynnol i ddefnyddio'r system) nes bod gweinyddiaeth newydd y Cyngor yn ei lle.

Yn awr bydd cyfieithu ar y pryd yng nghyfarfodydd y Cyngor yn cychwyn ym mis Medi 2022, pryd y cynhelir y cyfarfodydd gan ddefnyddio'r cyfarpar Gweddarlledu/Hybrid Public-I, sy'n galluogi elfennau cyfieithu'r system ddigidol yn effeithiol.

Safonau Llundio Polisi

Ymgorfforir gofynion y safonau llunio polisi yn fframwaith Asesu Effaith Integredig (AEI) y Cyngor. Cynhelir y broses o asesu effaith ar gyfer pob polisi/menter newydd a diwygiedig, ac felly caiff cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, yn ogystal â pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, eu hystyried bob tro. Mae canllawiau cynhwysfawr a ffurflenni cysylltiedig ar gael ar ein mewnwyd i'r holl staff ar hyn o bryd.

Cynhaliwyd tri archwiliad gwahanol o'r broses AEI yn ystod 2021-2022; (dau wedi'u gohirio ers 2020-2021) – y naill wedi'i nodi yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac wedi'i gynnal gan wasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor, yn canolbwyntio ar i ba raddau mae'r fframwaith wedi'i wreiddio yn ein proses o wneud penderfyniadau, y llall gan ymgynghorydd allanol yn canolbwyntio ar safon ac

effeithiolrwydd yr asesiadau; cynhaliwyd y trydydd gan Archwilio Cymru i ystyried Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb a'r defnydd ohonynt wrth wneud penderfyniadau. Cwblhawyd y ddau adroddiad archwilio cyntaf ym mis Mawrth 2022, ac roedd disgwyl i'r archwiliad olaf gael ei gwblhau erbyn mis Gorffennaf 2022.

Bydd argymhellion yr archwiliadau'n cael eu hystyried, ac yn llywio diwygiadau pellach i'r offeryn AEI fel sy'n briodol.

Mae hyfforddiant ar gyfer yr aelodau etholedig (fel rhan o'r hyfforddiant sefydlu i aelodau newydd) a'r staff perthnasol yn cael ei drefnu ar gyfer Mehefin/Gorffennaf a Medi 2022.


Er bod y Gymraeg yn elfen allweddol o broses yr AEI, nid oedd sylw mor bendant yn cael ei roi iddi bob amser wrth ddyfarnu grantiau. Roedd polisi grantiau'r trydydd sector yn cynnwys adrannau oedd yn ymwneud â'r Gymraeg, ond ni roddwyd fawr ddim ystyriaeth i'r iaith yn achos y grantiau eraill y buom ni'n eu gweinyddu.

Yn ystod y flwyddyn, ynghyd â nifer o awdurdodau lleol eraill, daethom ni'n ymwybodol nad oeddem yn bodloni gofynion safon 94, ac felly, gan ddilyn cyngor Comisiynydd y Gymraeg, a defnyddio templed a ddatblygwyd gan 'Deddf', cynhyrchwyd Polisi Dyfarnu Grantiau a'i roi ar waith ym mis Mai 2022.

Safonau Gweithredol

Er bod polisiau cysylltiedig â chyflogi staff wedi cael eu cynhyrchu yn Gymraeg ac ar gael ar ein mewnwyd, nid oes unrhyw aelod newydd na blaenorol o staff wedi dymuno derbyn gwybodaeth ynghylch eu cyflogaeth yn Gymraeg yn ystod 2021-2022.

Parhaodd nifer y staff a nododd fod ganddynt sgiliau Cymraeg yn gymharol isel at ei gilydd yn ystod 2021-2022. Fodd bynnag, gwelwyd cynnydd bychan yn nifer y staff a nododd eu bod yn siarad ac yn ysgrifennu Cymraeg yn rhugl (137 o gymharu ag 126 yn ystod 2020-2021) a gwelwyd cynnydd o 17 yn nifer y rhai oedd yn dysgu Cymraeg.



Cyfeirlyfr cyflogeion sy'n medru'r Gymraeg – nodwyd 146 o aelodau staff yn ein cyfeirlyfr cyflogeion fel rhai oedd yn barod i ddefnyddio'u sgiliau iaith fel rhan o'u gwaith, neu'n gallu gwneud hynny. Gwaetha'r modd, pan gyflwynwyd y system AD/Cyflogres newydd ddiwedd hydref 2021, nid oedd modd i'n tîm gwasanaethau digidol barhau i gynnal y cyfeirlyfr cyflogeion, system oedd yn gysylltiedig â'n system AD/Cyflogres flaenorol. Rydym ni'n gweithio i gyflwyno fersiwn arall o hyn.

Er bod y sefyllfa hon yn achosi rhwystredigaeth, ac fe allai ein rhwystro rhag cael hyd i siaradwyr Cymraeg yn hwylus, mae hefyd wedi bod yn gyfle i gydblethu amrywiol elfennau o'n gwaith, yn fwyaf amlwg adnabod siaradwyr Cymraeg a chyflwyno'r fframwaith asesu sgiliau iaith. Ein nod yw cwblhau'r gwaith hwn yn ystod 2022-2023.

Asesiadau sgiliau iaith – Er mwyn sicrhau bod sgiliau iaith yn cael eu hasesu'n gyson ar draws meysydd gwasanaeth, mae fframwaith newydd yn cael ei gyflwyno ar gyfer asesu sgiliau iaith. Bydd y fframwaith yn galluogi staff i asesu eu sgiliau iaith, ac yna diweddarau eu cofnodion AD, yn unol â meini prawf a gydnabyddir yn gyffredinol.

Yn ôl yr hyn rydym ni'n ei ddeall, mae staff yn tanbriso lefel eu sgiliau, felly y gobaith yw y bydd y broses newydd hon yn helpu i roi hwb i'w hyder ac annog staff i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg yn y gwaith. Bydd y broses asesu hefyd yn helpu rheolwyr i sicrhau dealltwriaeth well o'r sgiliau iaith yn eu meysydd gwasanaeth wrth ystyried cynllunio'r gweithlu/recruiwio.

Er y rhagwelid yn wreiddiol y byddai'r fframwaith yn rhan o weithredu system AD/Cyflogres newydd ddiwedd hydref 2021, wedi ystyried ymhellach, bernir bellach ei fod yn fwy priodol cyflwyno hyn yn raddol yn ystod 2022-2023.



Gwybodaeth, a deunydd cefnogi – mae canllawiau a deunydd cefnogi arall ar ddefnyddio safonau'r Gymraeg a chydymffurfio â nhw ar gael i'r holl staff trwy dudalen yr Hwb Perfformiad ar gyfer y Gymraeg ar y Fewnrwyd. Yn ystod y flwyddyn mae Grŵp Swyddogion y Gymraeg wedi diweddarau'r wybodaeth sydd ar gael ac wedi cynnwys peth deunydd newydd, er enghraifft canllawiau i gyflogeion, rhestr wirio ar gyfer cyfarfodydd, ac arweiniad i gyfieithiadau Cymraeg.

Yn sgîl y symudiad at blatfformau gwaith amgen, mae Grŵp Swyddogion y Gymraeg hefyd wedi creu dau grŵp Yammer ym mis Mawrth/Ebrill 2022; un er mwyn i siaradwyr Cymraeg sgwrsio a chefnogi cymheiriaid, a'r llall er mwyn i'r holl staff gael mynediad at wybodaeth, help a chefnogaeth, yn ogystal â deunyddiau hyrwyddo. Bydd y rhain yn gwbl weithredol yn ystod 2022-2023.

Hyfforddiant

Cynhelir sesiynau Cymraeg dan arweiniad cymheiriaid bob pythefnos gan y Swyddog Datblygu sy'n medru'r Gymraeg ar gyfer cydweithwyr yn y Tîm Gofal Plant Blynnyddoedd Cynnar a Dechrau'n Deg, i godi lefel sylfaenol eu Cymraeg llafar. Gan fod y tîm yn symud tuag at Ddyfarniad y Gymraeg ym maes Gofal Plant (a ddatblygwyd i annog lleoliadau gofal plant i fod yn ddwyieithog), barnwyd ei fod yn allweddol i'r staff gynyddu eu hyder wrth ddefnyddio'r iaith a'u gwybodaeth amdani, er mwyn cefnogi lleoliadau cyfrwng Saesneg; roedd yn hanfodol mynd ar y daith hon gyda'n gilydd ac i staff gofal plant weld ein bod ninnau'n barod i ddysgu ac yn gweithio'n galed i wella ein galluoedd personol ein hunain o ran y Gymraeg.

Bu gostyngiad sylweddol yn nifer y staff oedd yn cael mynediad i gyrsiau e-ddysgu Cymraeg yn ystod 2021-2022 (cyfanswm o 37 o gymharu â 248 yn 2020-2021). Er nad ymddengys bod rheswm penodol am y gostyngiad hwn, mae'n debygol bod newidiadau i drefniadau gwaith tua diwedd 2020-2021 ac ar hyd 2021-2022 (mwy o ysgolion yn ailagor yn llawn, trefniadau gwaith newydd hybrid ar gyfer staff swyddfa, cynnydd yn y llwyth gwaith/newid blaenoriaethau a gostyngiad yn nifer y staff a ailgyfeiriwyd ar y cychwyn) yn ogystal ag ymadawyr naturiol, wedi cyfrannu at y gostyngiad hwn.



Bu naw aelod o staff yn cyrchu/symud ymlaen i lefelau uwch o gyrsiau Cymraeg yn ystod y flwyddyn; cwblhaodd pedwar ohonynt eu cyrsiau, ac mae aelod arall o staff yn agos at orffen hefyd.

Er bod y niferoedd yn fach, mae'n galonogol gweld staff ar draws yr holl gyfarwyddiaethau yn cael mynediad i'r cyrsiau hyn.

Safonau Hyrwyddo

Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg – cyhoeddwyd yr adroddiad cynnydd blynyddol olaf ond un (2020-2021) ar gyfer y strategaeth gyfredol ym mis Ionawr 2022. Cafwyd bwlch yn y cynnydd yn ystod y cyfnod hwn o ganlyniad i'r pandemig, ac arweiniodd hynny yn ei dro at gynnal gwasanaethau yn dod yn flaenoriaeth mewn llawer o

feysydd. Fodd bynnag, gwelwyd cynnydd mewn rhai mannau, yn fwyaf amlwg:

- Sefydlwyd Clwb Ieuenctid rhithwir i annog defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ymhlith disgyblion Ysgol Gymraeg Ystalyfera ac mae wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer Gwobr Rhagoriaeth Gwaith Ieuenctid.
- Cynnydd yn nifer y staff sy'n cyrchu cyrsiau Cymraeg ar-lein.
- Cyflwynwyd ystod eang o weithgareddau gan Fenter Iaith Castell-nedd Port Talbot yn ystod y cyfnod, i helpu i hyrwyddo a chefnogi darpariaeth Gymraeg ymhlith teuluoedd a'r gymuned ehangach.
- Crewyd 'Cymorth gyda Gwaith Cartref Cymraeg' gan Fentrau Iaith Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe i gynnig cefnogaeth ymarferol i rieni yn y ddwy ardal gyda gwaith cartref, ac unrhyw faterion oedd yn codi yng nghyswllt addysg trwy gyfrwng y Gymraeg.

Gofynion Deddfwriaethol Penodol

Swyddi Gwag ar gyfer 1 Ebrill 2021 – 31 Mawrth 2022.

Gofynion o ran sgiliau Cymraeg	Nifer y swyddi	Canran y swyddi
Hanfodol	8	1.2
Dymunol	181	28.9
Angen dysgu Cymraeg	0	0
Dim angen sgiliau Cymraeg	438	69.9

Sgiliau Iaith Staff

Cyfddiaeth/Gwasanaeth	Sgiliau Cymraeg							Cyfanswm
	Siaradwr ac ysgrifennwr gweddol rhugl	Siaradwr gweddol rhugl	Siaradwr ac ysgrifennwr rhugl	Siaradwr rhugl	Dysgwr Cymraeg	Ychydig iawn o wybodaeth neu ddim gwybodaeth	Mae'n well gen i beidio â dweud	
Prif Swyddogion					1	3		4
Swyddfa'r Prif Weithredwr								
Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol	2	4	5	1	11	77	1	101
Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd	5	2	6	1	18	64		96
Gwasanaethau Ariannol	3	3	2		10	136	1	155
Gwasanaethau Digidol	4	1	2		7	90	1	105
Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes								
Datblygu Addysg	5	4	12	4	38	142	4	209
Blynyddoedd Cynnar, Cynhwysiant a Phartneriaethau	4	3	6	2	31	86	6	138
Gwasanaethau Cymorth a Thrawsnewid	11	4	25	10	34	469	29	582
Amgylchedd								
Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru	2	5	9	6	19	155	1	197
Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd	7	9	12	1	60	146	6	241
Eiddo ac Adfywio		7	3	2	12	112	2	138
Gwasanaethau Gofal Strydoedd	9	11	13	7	32	384	6	462
Peirianeg a Thrafnidiaeth	4	3	6	2	13	107	1	136
Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai								
Gwasanaethau Busnes		4	2	4	9	91	2	112
Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc	11	8	15	1	55	265	1	356
Gwasanaethau i Oedolion	12	12	19	9	50	455	4	561
Cyfanswm y cyfan	79	80	137	50	400	2782	65	3593

Cwynion

Daeth cyfanswm o naw cŵyn i law yn ystod 2021-2022; chwech trwy Gomisiynydd y Gymraeg a thri yn uniongyrchol i'r Cyngor.

CS035 – Cerdyn Gorsaf Bleidleisio – roedd y testun ar y cerdyn yn Saesneg yn gyntaf. Barnodd y Comisiynydd, gan mai Swyddogion Canlyniadau sy'n gyfrifol am gyflwyno cardiau pleidleisio, ac nad ydynt yn destun dyletswyddau iaith, nad oedd modd ymchwilio i hyn.

CS067 – Diffyg ymgynghori â'r gymuned a chau tair ysgol Saesneg eu cyfrwng i greu ysgol newydd ar gyfer rhyw 700 o blant ym Mhontardawe. Penderfynodd y Comisiynydd beidio â chynnal ymchwiliad, gan nad ymddangosai fod unrhyw amheuon ynghylch methiant i gydymffurfio ag un neu fwy o'r safonau. Fodd bynnag, roedd y Comisiynydd yn 'teimlo bod lle i'r Cyngor ehangu ei ystyriaeth o'r effeithiau ar yr iaith Gymraeg yn y ddogfen ymgynghori... ac roedd yn argymhell y dylai'r Cyngor gryfhau ei broses o ystyried yr effeithiau ar yr iaith Gymraeg yn y ddogfen ymgynghori.'

CS068 – Diffyg ymgynghori â'r gymuned a chau tair ysgol Saesneg eu cyfrwng i greu ysgol newydd ar gyfer rhyw 700 o blant ym Mhontardawe. Penderfynodd y Comisiynydd beidio â chynnal ymchwiliad, gan nad ymddangosai fod unrhyw amheuon ynghylch methiant i gydymffurfio ag un neu fwy o'r safonau. Fodd bynnag, roedd y Comisiynydd yn 'teimlo bod lle i'r Cyngor ehangu ei ystyriaeth o'r effeithiau ar yr iaith Gymraeg yn y ddogfen ymgynghori... ac roedd yn argymhell y dylai'r Cyngor gryfhau ei broses o ystyried yr effeithiau ar yr iaith Gymraeg yn y ddogfen ymgynghori.'

CS077 – Llythyr ynghylch Trafnidiaeth i'r Ysgol yn Saesneg yn unig. Nid ymchwiliodd y Comisiynydd i'r gŵyn hon oherwydd bod y Cyngor wedi cymryd camau priodol i sicrhau bod llythyron ynghylch trafndiaeth i'r ysgol yn cael eu hanfon yn ddwyieithog yn y dyfodol.

CS114 – Ymgynghoriad ynghylch cau tair ysgol Saesneg eu cyfrwng i greu ysgol newydd ar gyfer rhyw 700 o blant ym Mhontardawe. Cwyn yw hon sy'n honni nad oedd y Cyngor wedi cynnwys Asesiad Effaith ar y Gymraeg yn ystod rhan gyntaf y broses ymgynghori. Mae hefyd yn cyfeirio at yr Asesiad Effaith a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, nad oedd ar gael i'r cyhoedd, ac felly nad oedd cyfle i roi sylwadau ar yr asesiad hwnnw. Mae'r ymchwiliad yn parhau.

CS119 – Cwyn oedd yn cynnwys tri honiad gan aelod o staff. Yn gyntaf, yr honiad bod cyfathrebu mewnol â'r staff yn Saesneg yn unig; yn ail, mae'r achwynydd yn honni bod cais wedi'i wneud sawl tro am ffurflen Gymraeg i gadw sedd ar fws ysgol; ac yn olaf, bu'n rhaid i'r achwynydd ofyn am ffurflen Gymraeg wrth gychwyn cyflogaeth gyda'r Cyngor. Complaint containing three allegations from a member of staff. Nid ymchwiliodd y Comisiynydd i'r honiad cyntaf, gan nad oes safon sy'n gofyn bod y cyngor yn darparu gohebiaeth gyffredinol yn Gymraeg i'r staff. Oherwydd yr amser a aeth heibio ers yr achosion eraill (2017 a 2018), nid oes angen i'r Comisiynydd ystyried ymchwilio iddynt.

Y cwynion a dderbyniwyd yn uniongyrchol gan y Cyngor:

Arwyddion Parc Margam – cwyn oedd hon yn canolbwyntio ar wallau yn y Gymraeg ar arwyddion y parc ac arwyddion Saesneg yn unig. Canfu archwiliad mewnol fod rhai arwyddion wedi cael eu codi cyn i'r safonau ddod i rym, a bod un o'r arwyddion yn eiddo i fusnes preifat oedd yn gweithredu yn y parc, nad yw'n gorfod cydymffurfio â safonau'r iaith. Bydd byrddau ac arwyddion dwyieithog lle nodwyd gwallau yn cael eu newid pan fydd cyllid yn caniatáu. Cafodd yr arwyddion ynghylch rhagofalon y coronafeirws eu comisiynu a'u gosod ar fyr rybudd, fel nad oedd amser i'w cyfieithu. Atgoffwyd staff y parc o'r angen am sicrhau bod arwyddion yn ddwyieithog a bod y cyfieithiad yn gywir.

Arwyddion Stryd – Cwyn oedd hon yn cyfeirio at wall yn y Gymraeg ar arwydd stryd. Canfu ymchwiliad mewnol fod cyfieithiad wedi'i ddarparu heb gyd-destun, ac mai dyna pam yr oedd yn anghywir.

Newidiwyd y canllawiau i gyflogeion i adlewyrchu'r ffaith, os anfonir cymal neu frawddeg i'w cyfieithu, bod rhaid darparu'r cyd-destun, gan y gallai hynny effeithio ar gywirdeb y cyfieithiad.

Y Wefan/Cais am Daliad Tanwydd yn y Gaeaf – Cŵyn oedd hon yn cyfeirio at broblemau gyda gwefan y cyngor; nid oedd Cais y Cynllun Taliadau Tanwydd yn y Gaeaf ar gael yn Gymraeg, nid oedd y ffurflen gais am ohebiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn llwytho'n gywir, ac roedd y dolenni Cymraeg ar y wefan yn arwain at dudalennau Saesneg. Cynghorwyd yr adran dan sylw fod rhaid i unrhyw ffurflenni a gyhoeddir ar wefan y cyngor fod yn Gymraeg a Saesneg yn y dyfodol. Ychwanegwyd manylion yr achwynydd at y gronfa ddata ar gyfer y rhai sy'n dewis derbyn deunydd yn Gymraeg, a'i hysbysu ynghylch hynny.

Cafwyd penderfyniadau ynghylch y cwynion canlynol yn ystod 2021-2022:

CSG727 – Llythyr Coronafeirws a thaflen Iach a Diogel yn Saesneg yn unig. Penderfynodd y Comisiynydd fod y Cyngor wedi methu â bodloni safon pedwar, a phennwyd camau gweithredu pellach i atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd. O ganlyniad, cymerwyd camau, a dderbyniwyd gan y Comisiynydd, sy'n 'rhoi'r Cyngor mewn sefyllfa well fel nad ydych yn penderfynu peidio ag anfon gohebiaeth yn Gymraeg mewn argyfwng yn y dyfodol'.

CS026 – Poster, bagiau ailgylchu/gwastraff gardd ac arwyddion ar gerbydau ailgylchu – 'yn rhoi'r Gymraeg dan anfantais'. Er bod yr holl destun/arwyddion yn ddwyieithog ym mhob achos, mae'r achwynydd o'r farn bod ei leoliad 'yn rhoi'r Gymraeg dan anfantais'. Penderfynodd y Comisiynydd beidio â chynnal ymchwiliad gan nad oedd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol o dan unrhyw un o'r amgylchiadau hyn.

Cyfle i Ddweud eich Dweud

Croesewir ymholiadau neu adborth ar yr adroddiad hwn drwy:

E-bost: polisi@npt.gov.uk

Post: Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Canolfan Ddinesig, Port Talbot SA13 1PJ

Cyfryngau cymdeithasol:



Dilynwch ni ac ychwanegwch eich sylwadau at dudalen [Facebook](#) y cyngor



Dilynwch yr adroddiad hwn ac ychwanegwch eich negeseuon at ein tudalen [Twitter](#)



Dilynwch ni ar [Instagram](#)

Mesurau

Cyfieithiadau	2019-2020	2020-2021	2021-2022
Cyfanswm cost cyfieithiadau (lle gellir nodi hynny)	£49,573	£43,072	£39,573

Nifer y ceisiadau am gyfieithu a dderbyniwyd gan yr uned gyfieithu	716	662	815
--	-----	-----	-----

Galwadau Ffôn	2019-2020	2020-2021	2021-2022
Nifer y staff â sgiliau iaith rhugl/cymharol rugl a nodwyd yn y cyfeirlyfr cyflogeion	126	146	146*
Amser ar gyfartaledd i ateb galwadau ffôn – Saesneg	52 eiliad	43 eiliad	44 eiliad
Amser ar gyfartaledd i ateb galwadau ffôn - Cymraeg	45 eiliad	51 eiliad	57 eiliad

* Seiliwyd y ffigur hwn ar yr wybodaeth ddiweddaraf oedd ar gael cyn i ni golli'r cyfeirlyfr cyflogeion o ganlyniad i gyflwyno'r system AD/Cyflogres newydd.

Mae cynnydd yn lefelau'r galwadau - 1215 yn 2022 o gymharu â 1043 yn y flwyddyn flaenorol, sef twf o 14%, ynghyd â nifer cyfyngedig o siaradwyr Cymraeg yn yr adran, yn parhau i gyfyngu ar ein gallu i ddelio ag ymholiadau Cymraeg. Rydym ni'n dal i weld ymholiadau switsfwrdd yn cymryd amser sylweddol hwy i ddelio â nhw na chyn y pandemig, gan fod gwasanaethau wedi newid eu modelau gweithredu er mwyn addasu. Rydym ni'n dal i geisio gwrthweithio'r materion hyn, ond mae hynny wedi effeithio ar yr amser a gymerir i ddelio ag ymholiadau cyffredinol gyflym, gydag effaith o ganlyniad ar draws pob gwasanaeth. Gwaethygyd hyn hefyd gan amrywiol absenoldebau salwch, a effeithiodd ar nifer o'r tîm sy'n medru'r Gymraeg dros gyfnodau estynedig yn ystod y flwyddyn. Mae hynny wedi cael effaith negyddol ar ein gallu i ateb galwadau mor gyflym ag y byddem wedi hoffi. Byddwn ni'n gwrthweithio hyn trwy gynyddu nifer y staff sy'n siarad Cymraeg yn ystod prosesau recriwtio sydd i ddod.

Cyfyngau Cymdeithasol	31.03.20	31.03.21	31.03.22
Twitter Dilynwyr – cyfrif corfforaethol Saesneg	14,381	15,799	16,584

Dilynwyr – cyfrif corfforaethol Cymraeg	306	368	431
Facebook			
Cyfrif corfforaethol Saesneg	10,878	15,882	17,704
Cyfrif corfforaethol Cymraeg	71	103	141

E-gylchlythyr Newyddion CNPT	31.03.20	31.03.21	31.03.22
Nifer y tanysgrifwyr i'r e-gylchlythyr Cymraeg	11	17	17
Nifer y tanysgrifwyr i'r e-gylchlythyr Saesneg	1,221	1,922	2,186
Nifer y tanysgrifwyr i'r e-gylchlythyr dwyieithog	24	33	48

Gwefan	2019-2020	2020-2021	2021-2022
Cyfanswm nifer y trawiadau ar y wefan	3,576,298	3,980,097	4,009,274
Trawiadau ar dudalennau gwe yng Nghymru	34,045	23,423	29,177

Sgiliau Iaith	2019-2020	2020-2021	2021- 2022
Siarad ac ysgrifennu'n weddol rugl	83	77	79
Siarad yn weddol rugl	69	76	80

Siarad ac ysgrifennu Cymraeg yn rhugl	102	126	137
Siarad Cymraeg yn rhugl	49	48	50
Dysgu Cymraeg	347	383	400

Roedd nifer y staff a nododd fod ganddynt sgiliau Cymraeg yn ystod 2021-2022 yn parhau'n gymharol isel at ei gilydd. Fodd bynnag, roedd cynnydd bychan yn nifer y staff sy'n nodi eu bod yn siarad ac ysgrifennu'r iaith yn rhugl (137 o gymharu â 126 yn ystod 2020-2021).

Swyddi Gwag	2019-2020	2020-2021	2021-2022
Sgiliau Cymraeg yn ddymunol	146	83	181
Sgiliau Cymraeg yn hanfodol	36	2	8
Sgiliau Cymraeg ddim yn angenrheidiol	390	206	438
Angen dysgu sgiliau Cymraeg wrth benodi i'r swydd	1	0	0

Cwynion	2019-2020	2020-2021	2021-2022
Nifer y cwynion a dderbyniwyd trwy Gomisiynydd y Gymraeg	7	2	6

Nifer y cwynion lle barnodd Comisiynydd y Gymraeg nad oedd angen cynnal ymchwiliad	4	-	2
Nifer y cwynion lle penderfynodd Comisiynydd y Gymraeg nad oedd methiant i gydymffurfio â'r safonau *	1	-	3

* Er mwyn sicrhau dealltwriaeth well o ganlyniad y cwynion a dderbyniwyd trwy'r Comisiynydd, bernir ei fod yn briodol ychwanegu categori pellach at y tabl, ac mae data blynyddoedd blaenorol wedi cael ei ailgategoreiddio'n unol â hynny.

Er bod cynnydd yn nifer y cwynion a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn, dylid nodi, o'r chwech a ddaeth i law, nad cyfrifoldeb y Cyngor oedd un ohonynt, a bod tair cŵyn yn ymwneud ag agweddau ar yr un mater (darparu ysgol newydd ym Mhontardawe); nid oedd methiant i gydymffurfio mewn perthynas â thair o'r cwynion, ac roedd yr ymchwiliad yn parhau mewn perthynas â'r drydedd.